
# LIVE THEATRE & BROADCASTS

THEATR FYW & DARLLEDIADAU BYW

**APRIL | JUNE** / EBRILL | MEHEFIN **2026**

THEATR TORCH THEATRE

# Under Milk Wood



torchtheatre.co.uk | 01646 695267


# THEATR TORCH THEATRE 2026


**Bringing you thrilling entertainment the whole year through!**










@TORCHTHEATRE TORCHTHEATREPEMBS

THEATR TORCH THEATRE

torchtheatre.co.uk
01646 695267
ST PETER'S ROAD | MILFORD HAVEN | PEMBROKESHIRE | SA73 2BU

SCAN TO BOOK
SCAN I ARCHEBU

# WELCOME TO THE TORCH
# CROESO I THEATR Y TORCH

THEATR TORCH THEATRE

**As spring arrives, I'm thrilled to share what's on at the Torch as we step into the summer months.**

There's plenty for everyone – over Easter families will delight in ***A Big Egg***, a magical musical adventure full of live action, animation and puppetry, while adults can enjoy a bold new take on the classic ***Under Milk Wood*** from Theatr Clwyd and Craidd.

This season promises lots of laughs, great music, and a few moments that might just make you tap your toes. Comedians ***Mark Simmons*** and ***Robin Morgan*** will have you chuckling, while the music will be flowing from world-class tribute acts like the ***Johnny Cash Roadshow*** and the ***Electrik Live Orchestra***, and musical legend ***Tony Christie*** here in person!

Add to that our live broadcasts and vibrant community events, and the Torch is buzzing with activity for all. At our heart we aim to make the arts accessible to as many people as possible and the sell-out run of Sycamore Gap from our Torch Youth Theatre reminded me just how much our community makes that possible.

So, grab a cup of tea, flick through the brochure, and find your next favourite night out. We can't wait to welcome you - and maybe share a few smiles along the way!

**Wrth i'r gwanwyn gyrraedd, rwyf wrth fy modd yn rhannu beth sydd ymlaen yma yn y Torch wrth i ni gamu i mewn i fisoedd yr haf.**

Mae digon i bawb – dros y Pasg bydd teuluoedd wrth eu bodd gyda ***A Big Egg***, antur gerddorol hudolus yn llawn gweithredu byw, animeiddio a phypedwaith, tra gall oedolion fwynhau fersiwn newydd feiddgar o'r clasur ***Under Milk Wood*** gan Theatr Clwyd a Craidd.

Mae'r tymor hwn yn addo tipyn o chwerthin, cerddoriaeth wych, ac ychydig o eiliadau a fydd yn eich annog i dapio'ch traed. Bydd y digrifwyr ***Mark Simmons*** a ***Robin Morgan*** yn gwneud i chi chwerthin, tra bydd y gerddoriaeth yn llifo gan berfformwyr teyrnged o'r radd flaenaf fel y ***Johnny Cash Roadshow*** a'r ***Electrik Live Orchestra***, a'r bythgofiadwy cerddorol ***Tony Christie*** yma yn bersonol!

Ychwanegwch at hynny ein darllediadau byw a'n digwyddiadau bywiog yn y gymuned, ac mae'r Torch yn llawn gweithgarwch i bawb. Wrth ein gwraidd, y nod yw gwneud y celfyddydau'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl ac wrth i rediad o Sycamore Gap gan aelodau o'n Theatr Ieuenctid y Torch werthu pob tocyn, mae hyn wedi fy hatgoffa am gyfraniad y gymuned a wnaeth hyn yn bosib.

Felly, ewch am baned, porwch drwy'r llyfryn, a dewch o hyd i'ch hoff noson allan nesaf. Rydyn ni'n methu aros i'ch croesawu – ac efallai rhannu ychydig o hwyl ar hyd y ffordd!

**Enjoy / Mwynhewch,**



*Chelsey*

**Chelsey Gillard**
Cyfarwyddwr Artistig | **Artistic Director**

ST PETER'S ROAD | MILFORD HAVEN | PEMBROKESHIRE | SA73 2BU

torchtheatre.co.uk | 01646 695267

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

# LIVE THEATRE / THEATR FYW

## A BIG EGG

**8 April** / Ebrill, **14:00 | From £8**

For Jack and his little sister Molly Easter is all about eggs. But how big can an egg get? And what wonderful surprises might there be inside?

Perfect for ages 2-102!

*I Jack a'i chwaer fach Molly, mae Pasg yn ymwneud ag wyau? Ond pa mor fawr all ŵy fynd. A pha syrpreisys rhyfeddol all fod y tu mewn?*

*Perffaith ar gyfer oedrannau 2-102!*




## THE INVISIBLE MAN

**13 May** / Mai, **19:30 | £18**

A fast-paced and riotous adaptation of H.G. Wells' classic, featuring 15 characters played by just three actors, packed with quick changes, clever props and tongue-in-cheek fun!

*Addasiad cyflym a therfysglyd o glasur H.G. Wells, yn cynnwys 15 cymeriad yn cael eu chwarae gan ddim ond tri actor, yn llawn newidiadau cyflym, propiau clyfar a hwyl ddoniol!*



## UNDER MILK WOOD

**16 - 25 April** / Ebrill **| From £15**

To begin at the beginning...

The villagers of Llareggub dream of lost love, drowned shipmates and failed marriages.

Time passes.

Enter an eccentric world filled with romance, fantasy, scandal, and song. A funny, moving and accessible production of Welsh poet Dylan Thomas' iconic drama.

**Integrated Access:** Under Milk Wood uses integrated BSL and captioning. This means all shows have BSL signing, audio description (without requiring headsets) and captioning, built into the design of the show.


*I ddechrau yn y dechrau...*

*Mae pentrefwyr Llareggub yn breuddwydio am gariad coll, cyd-longwyr wedi boddi a phriodasau aflwyddiannus.*

*Mae amser yn gwibio heibio.*

*Ewch i mewn i fyd ecsentrig sy'n llawn rhamant, ffantasi, sgandal a chân. Cynhyrchiad doniol, cyffrous a hygyrch o o ddrama eiconig y bardd o Gymru, Dylan Thomas.*

**Mynediad Integredig:** *Defnyddia Under Milk Wood Iaith Arwyddion Prydain a chapsiynau integredig. Mae hyn yn golygu bod bob sioe yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain, disgrifiad sain (heb fod angen clustffonau) a chapsiynau, wedi'u hymgorffori yn nyluniad y sioe.*



# LIVE THEATRE / THEATR FYW

## BALLET CYMRU'S SLEEPING BEAUTY
**3 June** / Mehefin, **19:30 | from £11**

The classic fairy tale of a young princess spellbound by a curse. Touching on the themes of love, acceptance and what it means to be different, the ballet is swept along by Tchaikovsky's iconic score.

*Y stori dylwyth teg glasurol am dywysoges ifanc wedi'i swyno gan felltith. Gan gyffwrdd â themâu cariad, derbyniad a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wahanol, mae'r bale yn cael ei ysgubo ymlaen gan sgôr eiconig Tchaikovsky.*




## SHOWGIRLS AND SHARKS
**5 June** / Mehefin, **19:30 | £14**

Welsh cabaret/burlesque theatre show exploring a performer's journey through the industry -its realities, challenges, backstage life, and predatory "sharks."

*Sioe theatr cabaret/bwrlésg Gymreig yn archwilio taith perfformiwr drwy'r diwydiant - ei realiti, ei heriau, y bywyd y tu ôl i'r llwyfan, a'i "siarcod" ysglyfaethus.*




## BILLY: TWIRLING THROUGH TIME
**17 June** / Mehefin, **19:30 | £15**

A celebration of dance, queer friendships, and identity, inspired by the seminal film Billy Elliot, performed by Tom Marshman and Ryan O'Shea.

*Dathliad o ddawns, cyfeillgarwch, a hunaniaeth, wedi'i ysbrydoli gan y ffilm arloesol Billy Elliot, a berfformiwyd gan Tom Marshman a Ryan O'Shea.*




## GREEN FINGERS
**23 & 24 June** / Mehefin, **10:00 & 13:00 | £12**
Carers FREE

A multi-sensory theatre show for people with profound and multiple learning disabilities (PMLF).

*Sioe theatr amlsynhwyraidd i bobl ag anableddau dysgu dwys a niferus (PMLF).*



# LIVE ENTERTAINMENT / ADLONIANT BYW

## AN EVENING WITH SHANE WILLIAMS
**4 April** / Ebrill, **19:00 | From £35**
Meet and greet tickets available

Join us for a memorable evening with Welsh rugby legend Shane Williams, hosted by actor and comedian Phil Howe.

*Ymunwch â ni am noson i'w chofio gyda Shane Williams, chwedlonwr rygbi o Gymru, wedi'i chyflwyno gan yr actor a'r digrifwr Phil Howe.*




## MARK SIMMONS: JEST TO IMPRESS
**5 May** / Mai, **20:00 | £20**
Age Suitability: 14+

Mark's back at the Torch with a brand new show packed with even more expertly crafted one-liners, alongside his trademark off-the-cuff jokes based on random audience suggestions.

*Mae Mark yn dychwelyd i'r Torch gyda sioe newydd sbon yn llawn hyd yn oed rhagor o jôcs wedi'u crefftio'n arbennig, ochr yn ochr â'i jôcs digymell nodweddiadol yn seiliedig ar awgrymiadau ar hap gan y gynulleidfa.*



## WELSH WRESTLING
**17 May** / Mai, **16:00 | From £12**

Get ready for a night of thrilling, family-friendly entertainment. Expect explosive matches, larger-than-life characters, and non-stop excitement.

*Byddwch yn barod am noson o adloniant cyffrous, addas i deuluoedd. Disgwyliwch gemau ffrwydrol, cymeriadau mwy na bywyd, a chyffro di-baid.*




## ROBIN MORGAN: LET'S OVERSHARE
**23 May** / Mai, **20:00 | £14**
Age Suitability: 14+

Join Robin for more of his trademark cheeky charm, more quick wit and even more hilarious oversharing, in this brand new stand-up show.

*Ymunwch â Robin am ragor o'i swyn digywilydd nodweddiadol, rhagor o hiwmor cyflym a hyd yn oed rhagor o rannu doniol, yn y sioe ar ei sefyll newydd sbon hon.*



## Live music at the Torch Theatre – book quickly to reserve your seat as tickets will sell out fast!

## Cerddoriaeth fyw yn Theatr Torch – archebwch yn gyflym i gadw eich sedd gan y bydd tocynnau'n gwerthu allan yn gyflym!

### ELECTRIK LIVE ORCHESTRA

**3 April** / Ebrill, **19:30 | £25**

A stunning musical tribute to the sounds of ELO including all the classics.

*Teyrnged gerddorol syfrdanol i synau ELO gan gynnwys yr holl glasuron.*

### GO YOUR OWN WAY - A TRIBUTE TO FLEETWOOD MAC

**8 & 9 May** / Mai, **19:30 | From £24**

A spellbinding show beautifully performed by highly talented musicians on a powerful journey through their incredible song book.

*Sioe hudolus wedi'i pherfformio'n hyfryd gan gerddorion talentog iawn ar daith bwerus drwy eu llyfr caneuon anhygoel.*

### THE JOHNNY CASH ROADSHOW - THE PRISON YEARS TOUR

**15 May** / Mai, **19:30 | £26**

Step into the raw and gritty world of Johnny's prison era for some of Cash's most iconic performances to life.

*Camwch i fyd crai a garw Johnny yn ystod ei gyfnod yn y carchar i weld rhai o berfformiadau mwyaf eiconig Cash yn fyw.*

### TALON - THE ACOUSTIC COLLECTION - HANDLE WITH CARE 2026

**4 June** / Mehefin, **19:30 | £26**

Armed with no more than their four-part vocal harmony, acoustic instruments and laid-back banter, Talon will leave you simply spellbound.

*Wedi'u harfogi â dim mwy na'u harmoni lleisiol pedair rhan, offerynnau acwstig a'u sgwrs hamddenol, bydd Talon yn eich hudo'n llwyr.*

### YOURYTHMICS

**20 June** / Mehefin, **19:30 | £25**

A celebration of one of the biggest acts of the 80's! Taking you on a nostalgic trip back in time to some of the duo's biggest hits.

*Dathliad o un o actiau mwyaf yr 80au! Yn eich cludo ar daith hiraethus yn ôl mewn amser i rai o ganeuon mwyaf poblogaidd y ddeuawd.*

### TONY CHRISTIE - THE GREAT FAREWELL

**25 June** / Mehefin, **19:30 | From £30**

Only 25 VIP packages are available

Tony's illustrious career has spanned over 60 years. He fits into many genres of music: country; folk; easy listening and is oneofthe most popular and successful solo artists.

*Mae gyrfa ddisglair Tony wedi ymestyn dros 60 mlynedd. Mae ei genres yn amrywio o gerddoriaeth: gwlad; gwerin; gwrando hawdd ac mae'n un o'r artistiaid unigol mwyaf poblogaidd a llwyddiannus.*

### LIPSTICK ON YOUR COLLAR

**28 June** / Mehefin, **19:30 | £27**

Get your dancing shoes at the ready- you are in for an evening of back-to-back hits from the 1950s and 60s!

*Paratowch eich esgidiau dawnsio - ac am noson o ganeuon poblogaidd cefn wrth gefn o'r 1950au a'r 60au!*

# SUPPORT OUR COMMUNITY / CEFNOGI EIN CYMUNED

## ANYTHING GOES 2026 (PEMBROKESHIRE WI)

**10 April** / Ebrill, **19:30 | £12**

Pembs WI return to the Torch for their eleventh variety show that's sure to entertain and be a huge hit for people of all ages.

*Mae Sefydliad y Merched yn dychwelyd i'r Torch am eu hunfed sioe amrywiaeth ar ddeg sy'n siŵr o ddifyrru a bod yn llwyddiant ysgubol i bobl o bob oed.*


## HAVERFORDWEST MUSICAL THEATRE PRESENTS - DIVAS ALL AT SEA

**30 April** / Ebrill, **19:30 | £15**

The Divas have grown ambitious wanting to raise funds for a cruise! A nautical theme is adopted incorporating humorous excerpts from a variety of musicals.

*Mae'r Divas wedi tyfu'n uchelgeisiol ac am godi arian ar gyfer mordaith! Mabwysiadir thema forwrol gan ymgorffori darnau doniol o sioeau cerdd amrywiol.*




## COMMUNITY DANCE EVENT - THE LINK UP

**29 May** / Mai, **18:00 | £15**

Local dance schools share the stage for an unforgettable night of performance and celebration.
One stage. One community. One incredible night of dance.

*Ysgolion dawns lleol yn rhannu'r llwyfan am noson bythgofiadwy o berfformiadau a dathlu.*

*Un llwyfan. Un gymuned. Un noson anhygoel o ddawns.*

## KELLY WILLIAMS SCHOOL OF DANCE - WONDERLAND

**27 June** / Mehefin, **14:00 & 18:00 | From £17.50**

A classic tale with a dancer's twist, Step into a world of purple mist.
A journey bold and grand, Where street meets story in Wonderland.

*Stori glasurol tro dawnsiwr, Camwch i fyd o niwl porffor. Taith feiddgar a mawreddog, Lle mae stryd yn cwrdd â stori yng Ngwlad Hud.*








# Youth, Community and Education
# Ieuenctid, Cymuned a Addysg

## Torch Youth Theatre for those aged 7-18

**Join our engaging, inspiring, and inclusive Youth Theatre sessions this Summer! Any young person aged 7-18 is welcome. They'll be encouraged to build their confidence through creative and engaging sessions and learn about what it takes to make theatre happen. £90 for the term.**

## Theatr Ieuenctid y Torch i rai 7 -18 oed

***Ymunwch â'n sesiynau Theatr Ieuenctid deniadol, ysbrydoledig a chynhwysol y Haf hwn! Mae croeso i unrhyw berson ifanc 7-18 oed. Cânt eu hannog i fagu hyder trwy sesiynau creadigol a diddorol a dysgu am yr hyn sydd ei angen i wneud i theatr ddigwydd. £90 am y tymor.***

## Creative Writing Sessions (ages 18+)

Discover scriptwriting for the stage! Open to everyone ages 18+. Our expert team guides fortnightly sessions, nurturing your creative writing skills. **Dates are May 7th & 21st, June 11th & 25th and July 9th. Time is 6.30pm to 8.30pm. Cost is £50 for the term or £10 per session.**

## Sesiynau Ysgrifennu Creadigol (oed 18+)

*Dewch i ddarganfod sgriptio ar gyfer y llwyfan! Agored i bawb 18+ oed. Mae ein tîm arbenigol yn arwain sesiynau bob pythefnos, gan feithrin eich sgiliau ysgrifennu creadigol.* ***Y dyddiadau yw Mai 7 a 21, Meh 11 a 25, Gorff 9. Yr amser yw 6.30pm i 8.30pm a'r gost yw £50 am y tymor neu £10 y sesiwn.***

## Coffi Cymraeg (Free Event)

Are you a Welsh Speaker? Are you learning Welsh and want to practice? Then pop down to the Torch the first Wednesday of every month at 11am for ***Coffi Cymraeg***!

## Coffi Cymraeg (Digwyddiad Am Ddim)

*Ydych chi'n siarad Cymraeg? Ydych chi'n dysgu Cymraeg ac am ymarfer? Yna ewch draw i'r Torch ddydd Mercher cyntaf bob mis am 11am am* ***Coffi Cymraeg****!*

## Clothes Swap
## (FREE EVENT) May 16th & July 11th, 2 – 4pm

Swap not shop, it's kind and free!
A wardrobe update for you and me.
No price tags here - just give and take,
A greener choice for our planet's sake.
Clear your drawers, spread your cheer
A free clothes swap is happening here!

## Digwyddiad Cyfnewid Dillad
## (DIGWYDDIAD AM DDIM) Mai 16 a Gorffennaf 11, 2 – 4pm

*Ewch i gyfnewid nid siopa, mae'n garedig ac am ddim!*
*Diweddariad cwpwrdd dillad i chi a fi.*
*Does dim tagiau pris yma - dim ond rhoi a chymryd.*
*Dewis mwy gwyrdd er mwyn ein planed.*
*Cliriwch eich droriau, lledaenwch eich llawenydd*
*Mae cyfnewid dillad am ddim yn digwydd yma!*

If you would like further information or to book any of these activities, please get in touch with our Box Office, check out the **'Get Involved'** section on our website or contact **Tim Howe - tim@torchtheatre.co.uk** | *Os hoffech ragor o wybodaeth neu i archebu lle ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, cysylltwch â'n Swyddfa Docynnau, edrychwch ar yr adran* ***'Cymryd Rhan'*** *ar ein gwefan neu cysylltwch â* ***Tim Howe -tim@torchtheatre.co.uk****.*

**For more info visit our website | *Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan***
**https://www.torchtheatre.co.uk/get-involved/community/**

theatr IEUENCTID TORCH YOUTH theatre

torchtheatre.co.uk
01646 695267

Torch Theatre's Youth & Community work is supported by |
*Cefnogir gwaith Ieuenctid a Chymunedol Theatr y Torch gan*

Milford Haven Port Authority
The Ingles Charitable Trust |
*Porthladd Aberdaugleddau*
*Ymddiriedolaeth Elusennol Ingles*

Port of Milford Haven

SCAN TO BOOK
SCAN I ARCHEBU

A **Torch Youth Theatre** Production | Cynhyrchiad **Theatr Ieuenctid Torch**

# ROBIN HOOD

## THE LEGEND OF THE BLACK KNIGHT



**ROBIN HOOD: The Legend of the Black Knight**

**20th, 21st & 22nd July** / Gorffennaf, **18:30 | From £8**

This summer, **Torch Youth Theatre** invites you into the heart of Sherwood Forest. Join Robin Hood, Maid Marian and a raft of familiar characters as they fight for freedom against the tyranny of Queen Eleanor and the ruthless Sheriff of Nottingham.

*Yr haf hwn, mae **Theatr Ieuenctid y Torch** yn eich gwahodd i galon Sherwood Forest. Ymunwch â Robin Hood, y Forwyn Marian a llu o gymeriadau cyfarwydd wrth iddyn nhw ymladd dros ryddid yn erbyn gormes y Frenhines Eleanor a Siryf creulon Nottingham.*

THEATR TORCH THEATRE

torchtheatre.co.uk

01646 695267

SCAN TO BOOK | SCAN I ARCHEBU

Port of Milford Haven

Torch Theatre's Youth & Community work is supported by |
*Cefnogir gwaith Ieuenctid a Chymunedol Theatr y Torch gan*

Milford Haven Port Authority The Ingles Charitable Trust |
*Porthladd Aberdaugleddau Ymddiriedolaeth Elusennol Ingles*

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED



# Torch Youth Theatre
# Theatr Ieuenctid Torch

**LIMITED TICKETS**

## Summer Schools return this July

**Come join fun-packed creative sessions including performing in our studio theatre for family and friends.**

### Heroic Tales for Year 3 to Year 6 (ages 7 -11)

The Library is ALIVE! When the lights go out and the doors are locked, the books burst into action–dancing and playing hide-and-seek among the shelves. But as less people borrow them, they have to face the horror of the recycling bin! To save their stories the books must look for inspiration on their own pages, and launch a heroic mission before their final chapter is shredded. **Heroic Tales has sessions running daily from 10am to 3pm, Monday 27th to Friday 31st July.**

### Playmakers for Year 7 to Year 13 (ages 11 – 18)

Are you up for the challenge of learning a play in a week? Join us as we take on the challenge of rehearsing and performing a contemporary play written for young people just like you. 'Playmakers' is our senior summer school for ages 11-18. Learn the lines, find a costume and choose the music all in just 5 days! **Playmakers runs from 10am to 4pm, Monday 10th to Friday 14th August.**

### Costs £80 per person. (Sibling £70).

## Ysgolion haf mis Gorffennaf eleni

**Dewch i ymuno â sesiynau creu llawn hwyl sy'n cynnwys perfformio yn ein theatr stiwdio ar gyfer teulu a ffrindiau.**

### Heroic Tales ar gyfer Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 (7 -11 oed)

Mae'r Llyfrgell YN FYW! Pan fydd y goleuadau'n diffodd a'r drysau'n cael eu cloi, mae'r llyfrau'n dechrau dod yn fyw–yn dawnsio ac yn chwarae cuddio ymhlith y silffoedd. Ond wrth i lai o bobl eu benthyca, mae'n rhaid iddyn nhw wynebu arswyd y bin ailgylchu! I achub eu straeon, rhaid i'r llyfrau chwilio am ysbrydoliaeth ar eu tudalennau eu hunain, a lansio cenhadaeth arwrol cyn i'w pennod olaf gael ei rhwygo. **Bydd sesiynau Heroic Tales yn cael eu cynnal yn ddyddiol o 10am i 3pm, o ddydd Llun 27 i ddydd Gwener 31 Gorffennaf.**

### Playmakers ar gyfer Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13 (11 – 18 oed)

Ydych chi'n barod am yr her o ddysgu drama mewn wythnos? Ymunwch â ni wrth i ni ymgymryd â'r her o ymarfer a pherfformio drama gyfoes a ysgrifennwyd ar gyfer pobl ifanc fel y chi. 'Playmakers' yw ein hysgol haf i bobl ifanc hŷn rhwng 11 a 18 oed. Dysgwch y llinellau, dewch o hyd i wisg a dewiswch y gerddoriaeth i gyd mewn dim ond 5 diwrnod! **Cynhelir Playmakers o 10am i 4pm, o ddydd Llun 10 i ddydd Gwener 14 Awst.**

### Y gost yn £80 y pen. (Siblingiaid £70).

**For more info visit our website | *Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan***
**https://www.torchtheatre.co.uk/get-involved/youth-theatre/**

theatr IEUENCTID TORCH YOUTH theatre

torchtheatre.co.uk
01646 695267

Torch Theatre's Youth & Community work is supported by |
*Cefnogir gwaith Ieuenctid a Chymunedol Theatr y Torch gan*

Milford Haven Port Authority
The Ingles Charitable Trust |
*Porthladd Aberdaugleddau*
*Ymddiriedolaeth Elusennol Ingles*

Port of Milford Haven

SCAN TO BOOK
SCAN I ARCHEBU

# SUPPORT OUR COMMUNITY / CEFNOGI EIN CYMUNED

## NEW XENON PRESENTS - THE FULL MONTY

**11 - 13 June** / Mehefin, **Various times | £16**

After their hugely successful maiden production of 'Allo 'Allo, New Xenon Theatre Co are back with a real corker!


Based on one of the most successful British films of all time - The Full Monty follows a group of unemployed steelworkers from Sheffield who, facing hardship and dwindling hope, dare to dream big.

*Ar ôl eu cynhyrchiad cyntaf hynod lwyddiannus o AlloAllo, mae New Xenon Theatre Co yn ôl gyda chynhyrchiad go iawn!*

*Yn seiliedig ar un o'r ffilmiau Prydeinig mwyaf llwyddiannus erioed – dilyna The Full Monty grŵp o weithwyr dur di-waith o Sheffield sydd, wrth wynebu caledi a gobaith sy'n lleihau, yn mentro breuddwydio'n fawr.*







# BROADCAST THEATRE / THEATR DDARLLEDU

## THE ROYAL OPERA: SIEGFRIED

**2 April** / Ebrill, **17:00 | From £9**

Recorded Broadcast

The third chapter of Wagner's Ring cycle brought to life under Barrie Kosky's inspired eye.

*Trydydd bennod cylch Ring Wagner yn cael ei fywiogi dan lygad ysbrydoledig Barrie Kosky.*



## THE ROYAL OPERA: THE MAGIC FLUTE

**28 April** / Ebrill, **17:00 | From £9**

Recorded Broadcast

Princess Pamina has been captured. Her mother, the Queen of the Night, tasks the young Prince Tamino with her daughter's rescue. But nothing is what it seems.

*Mae'r Dywysoges Pamina wedi cael ei chipio. Mae ei mam, Brenhines y Nos, yn rhoi'r dasg i'r Tywysog ifanc, Tamino, achub ei merch. Ond nid yw dim byd fel y mae'n ymddangos.*



## NT LIVE: ALL MY SONS

**29 April** / Ebrill, **19:00 | From £8.50**

Recorded Broadcast

This acclaimed new production of Arthur Miller's classic play, from visionary director Ivo Van Hove stars Bryan Cranston and Marianne Jean-Baptiste.

*Mae'r cynhyrchiad newydd clodwiw hwn o ddrama glasurol Arthur Miller, gan y cyfarwyddwr gweledigaethol Ivo Van Hove, yn serennu Bryan Cranston a Marianne Jean-Baptiste.*




## MET OPERA: EUGENE ONEGIN

**2 May** / Mai, **18:00 | From £9**

Live Broadcast

Soprano Asmik Grigorian returns as Tatiana in Tchaikovsky's lyrical romance as the lovestruck young heroine.

*Mae'r soprano Asmik Grigorian yn dychwelyd fel Tatiana yn rhamant gerdd Tchaikovsky fel yr arwres ifanc sydd wedi'i swyno gan gariad.*



# BROADCAST THEATRE / THEATR DDARLLEDU

## EOS: FRIDA KAHLO
**19 May** / Mai, **19:15 | £13**
Recorded Broadcast

Frida Kahlo is a phenomenon. She is arguably the world's favourite female artist – beloved by young and old.


*Mae Frida Kahlo yn ffenomen. Gellir dadlau mai hi yw hoff artist benywaidd y byd – yn cael ei charu gan bobl hen ac ifanc.*



## NT LIVE: THE PLAYBOY OF THE WESTERN WORLD
**28 May** / Mai, **19:00 | From £8.50**
Recorded Broadcast

Nicola Coughlan (Bridgerton), Éanna Hardwicke and Siobhán McSweeney star in John Millington Synge's powerful play of youth and self-discovery.

*Nicola Coughlan (Bridgerton), Éanna Hardwicke a Siobhán McSweeney sy'n serennu yn nrama bwerus John Millington Synge o ieuenctid a hunan ddarganfyddiad.*




## MET OPERA: EL ÚLTIMO SUEÑO DE FRIDA Y DIEGO
**30 May** / Mai, **18:00 | From £9**
Live Broadcast

American composer Gabriela Lena Frank's first opera is a magical-realist portrait of Mexico's painterly power couple Frida Kahlo and Diego Rivera, with libretto by Pulitzer Prize–winning playwright Nilo Cruz.

Fashioned as a reversal of the Orpheus and Euridice myth, the story depicts Fridaleaving the underworld on the Day of the Dead and reuniting with Diego.

*Mae opera gyntaf y gyfansoddwraig Americanaidd, Gabriela Lena Frank, yn bortread hudolus-realistig o gwpl arlunyddol pwerus Mecsico, Frida Kahlo a Diego Rivera, gyda libretto gan y dramodydd Nilo Cruz, sydd wedi ennill Gwobr Pulitzer.*

*Wedi'i llunio fel gwrthdroad o fyth Orpheus ac Euridice, mae'r stori'n darlunio Fridale yn gadael yr isfyd ar Ddiwrnod y Meirw ac yn ailymuno â Diego.*



## APRIL / EBRILL

| DATE/DYDDIAD | TIME/AMSER | SHOW TITLE/ TEITL Y SIOE |
|---|---|---|
| Thu 2 Iau | 17:00 | The Royal Opera: Siegfried |
| Fri 3 Gwe | 19:30 | Electrik Live Orchestra |
| Sat 4 Sad | 19:00 | An Evening with Shane Williams |
| Wed 8 Mer | 14:00 | A Big Egg |
| Fri 10 Gwe | 19:30 | Anything Goes 2026 (Pembrokeshire WI) |
| Thu 16 Iau | 19:30 | Under Milk Wood |
| Fri 17 Gwe | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Sat 18 Sad | 14:00 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Sat 18 Sad | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Tue 21 Maw | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Wed 22 Mer | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Thu 23 Iau | 14:00 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Thu 23 Iau | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Fri 24 Gwe | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Sat 25 Sad | 14:00 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Sat 25 Sad | 19:30 | A Theatr Clwyd Production with Craidd: Under Milk Wood |
| Tue 28 Maw | 17:00 | The Royal Opera: The Magic Flute |
| Wed 29 Mer | 19:00 | NT Live: All My Sons |
| Thu 30 Iau | 19:30 | Haverfordwest Musical Theatre: Divas All At Sea |

**WED 1 MER APRIL / EBRILL - THU 30 IAU APRIL / EBRILL**
**UNDER MILK WOOD EXHIBITION**

## MAY / MAI

| DATE/DYDDIAD | TIME/AMSER | SHOW TITLE/ TEITL Y SIOE |
|---|---|---|
| Sat 2 Sad | 18:00 | Met Opera: Eugene Onegin |
| Tue 5 Maw | 20:00 | Mark Simmons: Jest to Impress |
| Fri 8 Gwe | 19:30 | Go Your Own Way - A Tribute to Fleetwood Mac |
| Sat 9 Sad | 19:30 | Go Your Own Way - A Tribute to Fleetwood Mac |

## MAY / MAI CONTINUED

| DATE/DYDDIAD | TIME/AMSER | SHOW TITLE/ TEITL Y SIOE |
|---|---|---|
| Wed 13 Mer | 19:30 | The Invisible Man |
| Fri 15 Gwe | 19:30 | The Johnny Cash Roadshow: The Prison Years Tour |
| Sun 17 Sul | 16:00 | Welsh Wrestling |
| Tue 19 Maw | 19:15 | EOS: Frida Kahlo |
| Sat 23 Sad | 20:00 | Robin Morgan: Let's Overshare! |
| Thu 28 Iau | 19:00 | NT Live: The Playboy of the Western World |
| Fri 29 Gwe | 18:00 | Community Dance Event: The Link Up |
| Sat 30 Sad | 18:00 | NT Live: El Último Sueño de Frida y Diego |

**WED 6 MER MAY / MAI - SAT 30 SAD MAY / MAI**
**ANTHONY GRIFFITHS EXHIBITION**

## JUNE / MEHEFIN

| DATE/DYDDIAD | TIME/AMSER | SHOW TITLE/ TEITL Y SIOE |
|---|---|---|
| Wed 3 Mer | 19:30 | Ballet Cymru's Sleeping Beauty |
| Thu 4 Iau | 19:30 | Talon - The Acoustic Collection - Handle with Care |
| Fri 5 Gwe | 19:30 | Showgirls and Sharks |
| Thu 11 Iau | 19:30 | New Xenon: The Full Monty |
| Fri 12 Gwe | 19:30 | New Xenon: The Full Monty |
| Sat 13 Sad | 14:30 | New Xenon: The Full Monty |
| Sat 13 Sad | 19:30 | New Xenon: The Full Monty |
| Wed 17 Mer | 19:30 | Billy: Twirling Through Time |
| Sat 20 Sad | 19:30 | Yourythmics |
| Tue 23 Maw | 10:00 | Green Fingers |
| Wed 24 Mer | 13:00 | Green Fingers |
| Thu 25 Iau | 19:30 | Tony Christie: The Great Farewell |
| Sat 27 Sad | 14:00 | Kelly Williams School of Dance: Wonderland |
| Sat 27 Sad | 18:00 | Kelly Williams School of Dance: Wonderland |
| Sun 28 Sul | 19:30 | Lipstick On Your Collar |

**WED 3 MER JUNE / MEHEFIN - MON 29 LLUN JUNE / MEHEFIN**
**WARREN HEATON ART EXHIBITION**


## Café Torch

**Great food.**
**Local hospitality.**
**Every occasion.**

**Bwyd gwych.**
**Croeso cynnes.**
**Ar gyfer pob achlysur.**

Café Torch, nestled inside the Torch Theatre, is a great venue to enjoy a pre-show supper for visitors to the Torch, as well as an ideal partner for corporate catering for local businesses and is an ideal venue for events and special occasions.

Contact us on **cafe@torchtheatre.co.uk** to book your pre-show supper or chat about your event.







THEATR TORCH THEATRE

torchtheatre.co.uk
01646 695267

SCAN TO BOOK
SCAN I ARCHEBU

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

# HOW TO BOOK
# SUT MAE ARCHEBU

SCAN TO BOOK
SCAN I ARCHEBU

## BOOKING / ARCHEBU

**Please book tickets online and use e-tickets where possible.**
Or you can call the **Box Office** between **11.00am and 5.00pm** on **Tuesday to Saturday** and on **Sunday** an hour before performances and screenings. Box Office is closed on Bank Holidays with the exception of Good Friday.

**Archebwch docynnau ar-lein a defnyddiwch e-docynnau lle bo modd.**
Neu ffoniwch y **Swyddfa Docynnau** rhwng **11.00am a 5.00pm** o **ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn** ac ar **ddydd Sul** awr cyn perfformiadau a dangosiadau. Mae'r Swyddfa Docynnau ar gau ar Ŵyl y Banc ac eithrio Dydd Gwener y Groglith.

## ACCESS FOR ALL / MYNEDIAD I BAWB

We welcome everyone to the Torch and we are dedicated to ensuring our venue is accessible and inclusive for everyone, especially deaf, disabled and neurodivergent people.

We are proud to be a Dementia and Autism Friendly organisation.

Please see the website for details of our facilities - **torchtheatre.co.uk/your-visit/access-facilities**. And if you have access requirements, please call or email our Box Office team who will be happy to help.

Rydym yn croesawu pawb i'r Torch ac rydym yn ymroddedig i sicrhau bod ein lleoliad yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb, yn enwedig pobl fyddar, anabl a niwroamrywiol.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad sy'n ystyriol o Ddementia ac Awtistiaeth.

Gweler y wefan am fanylion ein cyfleusterau - **torchtheatre.co.uk/your-visit/access-facilities.** Ac os oes gennych chi ofynion mynediad, ffoniwch neu e-bostiwch ein tîm Swyddfa Docynnau a fydd yn hapus i'ch helpu.

## ACCESSIBLE SCREENINGS
## DANGOSIADAU HYGYRCH

Please see the schedule for details of our subtitled, relaxed environment and dementia friendly screenings or visit - **torchtheatre.co.uk/whats-on/accessible-screenings**.

Gweler yr amserlen er mwyn cael manylion am ein dangosiadau amgylchedd hamddenol a dementia ag is-deitlau neu ewch i - **torchtheatre.co.uk/whats-on/accessible-screenings**.

Torch Theatre is a member of Hynt. If you need support or assistance to attend a performance at a theatre or arts centre then you may be eligible to join Hynt. To become a Hynt member and receive your Hynt Card visit **https://www.hynt.co.uk**

Mae Theatr y Torch yn aelod o Hynt. Os oes angen cefnogaeth neu gymorth arnoch i fynychu perfformiad mewn theatr neu ganolfan gelf, yna efallai y byddwch yn gymwys i ymuno â Hynt. I ddod yn aelod Hynt a derbyn eich Cerdyn Ymweliad Hynt ewch i ***https://www.hynt.co.uk***

**https://www.torchtheatre.co.uk/about-us/access-facilities**




**torchtheatre.co.uk/whats-on/all-events/**
Box Office | 01646 695267
boxoffice@torchtheatre.co.uk